# Blwyddlyfr Plant a Phobl Ifanc

# *Children's and Young Adults' Yearbook*

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

2021



# Croeso mawr i Flwyddlyfr Plant a Phobl Ifanc Cyngor Llyfrau Cymru 2021

Mae meithrin cariad gydol oes at ddarllen yn un o flaenoriaethau Cyngor Llyfrau Cymru.

Rydyn ni'n ymwybodol iawn o'r budd a ddaw i ddatblygiad plentyn yn sgil darllen, ar lefel addysgiadol ac emosiynol, ac mae hynny'n amlycach nag erioed yn ystod y cyfnod hwn.

Does dim prinder yn y blwyddlyfr o deitlau i feithrin cariad at ddarllen, a cheir yma ystod ragorol o lyfrau i blant a phobl ifanc a gafodd eu cyhoeddi yng Nghymru yn 2020 – yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog.

Pleser o'r mwyaf yw cael rhannu'r teitlau hyn â chi a'ch cynorthwyo chi, ynghyd â darllenwyr ifanc, i ddod o hyd i'r llyfrau iawn ac i ganfod y straeon hynny sy'n creu gwefr, yn ysbrydoli ac yn addysgu. Gan fod dros 100 o lyfrau newydd yn ein blwyddlyfr, fe ddylai fod yma rywbeth at ddant pob oedran a diddordeb, o blantos bach chwilfrydig i ddarllenwyr yn eu harddegau sy'n anodd eu plesio.

Yn ogystal â'r blwyddlyfr hwn, mae yna, wrth gwrs, nifer helaeth o lyfrau a chylchgronau eraill i blant a phobl ifanc, ac rydym yn hapus i rannu manylion yr holl deitlau sydd ar gael â chi.

Cymerwch olwg ar gwales.com lle byddwch hefyd yn dod o hyd i gyfoeth o adolygiadau i'ch helpu chi i ddewis. Gallwch archebu ar-lein neu brynu gan eich siop lyfrau leol; mae nifer ohonynt bellach yn cynnig gwasanaeth archebu ar-lein a phostio neu gasglu.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau pori trwy'r tudalennau hyn ac y byddwch yn canfod yma ysbrydoliaeth ar gyfer y flwyddyn darllen sydd o'ch blaen. Byddem wrth ein bodd yn clywed beth sydd wedi mynd â'ch bryd!

**Mwynhewch!**

# *A warm welcome to the Books Council of Wales' Children's and Young Adults' Yearbook 2021*

Promoting a lifelong love of reading is one of our priorities at the Books Council of Wales.

The benefits reading brings to a child's development, both educationally and emotionally, are well documented and are even more important during these challenging times.

There's no shortage of material to feed a love of reading and our annual yearbook showcases the fabulous range of books for children and young adults published in Wales in 2020 – in Welsh, in English and bilingually.

We're thrilled to share these latest titles with you, helping you and young readers to find the right books, and discover stories that delight, inspire and educate. With more than 100 new books in our yearbook, there should be something here for every age and interest – from curious toddlers to hard-to-please teenagers.

There are, of course, many more books and magazines for children and young adults than are featured in this year's edition, and we can supply you with details of all available titles from Wales.

Take a look too at our gwales.com website where you'll also find a wealth of reviews to help you choose. All of the titles are available to buy through your local bookseller, with many offering online ordering and postal deliveries or click and collect services.

We hope you enjoy browsing these pages and find inspiration here for your reading year ahead.

**Enjoy!**



**Helgard Krause**
**Prif Weithredwr** *Chief Executive*



**Gall ymgolli mewn llyfr da agor drws y dychymyg, ond gall hefyd ddatblygu sgiliau o bob math ymhlith plant a phobl ifanc – o uniaethu â phrofiadau pobl eraill i ddeall syniadau a theimladau, o weld y byd trwy lygaid newydd i feddwl yn annibynnol.**

Mae hynny, o bosib, yn fwy pwysig nag erioed yn y cyfnod hwn, ac fel Cyngor Llyfrau Cymru, rydyn ni'n falch iawn o allu rhannu gwledd o lyfrau ac adnoddau newydd sydd wedi ymddangos yn ystod y 12 mis diwethaf, er gwaetha'r cyfyngiadau.

Mae hyrwyddo darllen er pleser yn ganolog i'n gwaith a'n gweledigaeth. Drwy rannu gwybodaeth am gyfrolau, yn ogystal â threfnu ymgyrchoedd dathlu darllen, ein nod yw rhoi'r cyfle i bawb, yn blant a phobl ifanc, i ddod yn ddarllenwyr brwd.

**Cystadlaethau Darllen** Mae Darllen Dros Gymru a BookSlam yn gystadlaethau blynyddol i blant ysgolion cynradd, y naill yn annog darllen llyfrau Cymraeg a'r llall yn canolbwyntio ar lyfrau Saesneg a gyhoeddwyd yng Nghymru. Dyma gyfle hwyliog i ddisgyblion drin a thrafod llyfrau, i feddwl yn ddychmygus ac i roi cynnig ar droi stori yn berfformiad. Cystadleuaeth ar-lein fydd hon yn 2021 ond yr un fydd yr afiaith a'r egni!

**Gwobrau Llyfrau** Mae tynnu sylw at safon a chyfraniad y rheiny sydd â dawn greadigol ym myd llyfrau yn hollbwysig i ni hefyd. Ers sefydlu Gwobrau Llyfrau Plant a Phobl Ifanc Tir na n-Og yn 1976, mae'r Cyngor Llyfrau wedi dathlu doniau rhai o awduron a darlunwyr amlycaf Cymru.

Panel o feirniaid profiadol sy'n dewis a dethol yr enillwyr bob blwyddyn, gan lunio rhestr fer o gyfrolau gwreiddiol yn y Gymraeg, ynghyd â chyfrolau Saesneg sydd â chefndir dilys Cymreig. Eleni, mae gennym Gynllun Cysgodi arbennig i ysgolion, sy'n rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddatgan barn a bwrw eu pleidlais nhw ar gynnwys y rhestr fer.

**Teithiau Awdur** Ffordd arall o ysbrydoli cariad at ddarllen yw clywed awdur a darlunydd yn sgwrsio am eu bywyd a'u gwaith ym myd llyfrau. Er nad yw trefnu teithiau wyneb-yn-wyneb yn bosib yn y cyfnod hwn, mae gennym gynlluniau cyffrous ar gyfer sesiynau ar-lein gyda rhai o'n hawduron amlycaf. Y nod bob tro yw deffro'r dychymyg, ysgogi creadigrwydd a dathlu darllen.



**Diwrnod y Llyfr** Mae sicrhau bod gan bawb o bob oed y cyfle i ddarllen a chael blas ar lyfrau o bob math yn gwbl allweddol i waith y Cyngor Llyfrau.

Fel rhan o Ddiwrnod y Llyfr, mae pob plentyn yn derbyn tocyn llyfr arbennig sy'n ei alluogi i ddewis un gyfrol o blith detholiad blynyddol o deitlau Cymraeg a Saesneg. Mae'n gyfle gwych i rannu straeon, i danio'r dychymyg ac i ddathlu darllen.

**Sialens Ddarllen yr Haf** Gall cynnal yr arfer o ddarllen yn ystod gwyliau hir yr haf fod yn heriol. Rydyn ni, felly, yn gweithio gyda'r Asiantaeth Ddarllen a llyfrgelloedd ar hyd a lled Cymru i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddarllen chwe llyfr rhwng diwedd tymor yr haf a dechrau'r tymor newydd. Mae cymryd rhan yn rhad ac am ddim, ac mae yna wobrau a thystysgrifau arbennig i'w hennill. Bydd sialens arall yn 2021 gyda nifer o'r gweithgareddau ar-lein, fel a ddigwyddodd yn 2020.

Nod pob un o'r gweithgareddau uchod yw meithrin cariad at lyfrau ymhlith plant a phobl ifanc, a gwneud darllen yn arfer gydol oes.

**I gael gwybod mwy am ein gwaith, ewch i llyfrau.cymru/carudallen, anfonwch e-bost at cllc.plant@llyfrau.cymru neu dilynwch @LlyfrDaFabBooks #carudarllen #lovereading.**



**Helen Jones**

***Pennaeth Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen***

**We know that losing oneself in a good book can not only stimulate the imagination but also help develop a range of skills in children and young people, from engaging with the experiences of others to understanding new ideas, from seeing the world through new eyes to thinking independently.**

In these challenging times, these reading experiences are arguably more important than ever, and that's why we at the Books Council of Wales are thrilled to share the wealth of new books and resources published in Wales over the past 12 months, despite current restrictions.

Promoting reading for pleasure is central to our work and vision. By providing information about books as well as co-ordinating campaigns to celebrate reading, our aim is to inspire children and young people to become avid readers.

**Reading Competitions** Darllen Dros Gymru and BookSlam are annual competitions for primary school children, the former focusing on reading Welsh-language books and the latter on English-language books published in Wales. These competitions are a great way for pupils to discuss books, to think imaginatively and to try their hand at turning a story into a performance. Our 2021 competitions will be on-line, still with the same energy and enthusiasm!

**Book Awards** Highlighting the quality and the contribution of those who craft creative content is also important to us. Since establishing the Tir na n-Og Children's and Young People's Book Awards in 1976, the Books Council has celebrated the talents of some of Wales' leading writers and illustrators.

Every year a panel of experienced judges select the winners, drawing up a shortlist of original volumes in Welsh, as well as English volumes with an authentic Welsh background. We'll be co-ordinating a Shadowing Scheme for schools so that children and young people can voice their views and cast a vote on the shortlist.

**Author Tours** Hearing an author and illustrator talk about their life and work in the world of books can also inspire reading. Although physical events are on hold at present we have some exciting on-line events planned with some of our talented authors. The aim at all times is to spark the imagination, stimulate creativity and celebrate reading.




**World Book Day** Ensuring that people of all ages have the opportunity to read and enjoy books of all kinds is key to the work of the Books Council.

As part of World Book Day, every child receives a special token enabling them to choose one book from an annual selection of Welsh and English titles. It's a fantastic opportunity to share stories, fire the imagination and rejoice in the joy of reading.

**Summer Reading Challenge** We know that keeping the reading habit alive during the long summer holidays can be challenging, so we're working with the Reading Agency and libraries across Wales to encourage children and young people to read six books between the end of the summer term and the start of the new season. It's free to take part – and there are some great prizes and certificates to be won. The 2021 challenge will be going ahead with many on-line activities, as in 2020.

All of our activities are aimed at fostering a love of books among children and young people and making reading a lifelong habit.

**To find out more about our work, please visit books.wales/carudarllen, email wbc.children@books.wales or follow @LlyfrDaFabBooks #carudarllen #lovereading.**



**Helen Jones**
***Head of Children's Books and Reading Promotion***



Darluniau / *Illustrations* – Nia Tudor

Dalier sylw – gall fod newidiadau yn y prisiau
*Please note – prices may change without notification*

Cyngor Llyfrau Cymru · *Books Council of Wales* · Castell Brychan · Aberystwyth · Ceredigion · SY23 2JB
01970 624151 · llyfrau.cymru · gwales.com · books.wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cynnwys *Contents*


**Teitlau Cymraeg / dwyieithog**
***Welsh / bilingual titles***

Oed *Age* 0–3 9
Oed *Age* 3–7 18

**Teitlau Cymraeg**
***Welsh titles***

Oed *Age* 7–9 30
Oed *Age* 9–11 35
Oed *Age* 11+ 40
Cylchgronau *Magazines* 43

**Teitlau Saesneg**
***English titles***


Oed *Age* 3–7 45
Oed *Age* 7–9 49
Oed *Age* 9–11 52
Oed *Age* 11+ 56

**Teitlau addysgol – Uwchradd** 58
***Educational titles – Secondary***

*Cyfres Archwilwyr Bychain*

# Ar y Fferm

## Clare Beaton (Addas. Mared Llwyd)




Bydd archwilwyr bychain wrth eu bodd yn darganfod rhyfeddodau'r byd o'u cwmpas. Dewch o hyd i'r bobl, y planhigion a'r anifeiliaid sy'n brysur ar y fferm!


*Little observers will love sensing the wonder in the world around them. Spot the people, plants and animals buzzing around on the farm!*

16 9781849674676 £4.99 Rily

*Cyfres Archwilwyr Bychain*

# Yn y Parc

## Clare Beaton (Addas. Mared Llwyd)




Bydd archwilwyr bychain wrth eu bodd yn darganfod rhyfeddodau'r byd o'u cwmpas. Dewch o hyd i'r creaduriaid, y blodau, y coed a'r bobl sy'n mwynhau yn eu parc lleol!

*Little observers will love sensing the wonder in the world around them. Spot the creatures, flowers, trees and people enjoying their local park!*

16 9781849674669 £4.99 Rily

# Ff am Fferm

## Aimée Chapman, Will Putnam, Amy Oliver (Addas. Awen Schiavone)





Dewch i gwrdd a chyffwrdd ag anifeiliaid fferm annwyl, a darllen amdanynt mewn mydr ac odl. Llyfr hyfryd i'r teulu cyfan.

*With adorable farm animals to meet, furry textures to feel, and gentle rhymes to read together, this delightful book is sure to become a family favourite.*

14 9781849675420 £6.99 Rily

# Fy Hoff Uncorn / My Favourite Unicorn

## (Addas. Elin Meek)




Pa un yw dy hoff uncorn di? Tynna'r fflapiau a throi'r olwyn i ddewis. Mae'n cynnwys testun Saesneg er mwyn cynorthwyo rhieni i ddarllen gyda'u plant.

*Which is your favourite unicorn? Pull down the flaps and turn the wheel to choose. The English text will assist parents to read with their children.*


dwyieithog bilingual 10 9781784231576 £5.99 Dref Wen

# Geiriau Cyntaf y Fferm

**Roger Priddy (Addas. Lowri Head)**

Dyma lyfr bach cyntaf delfrydol ar gyfer babanod a phlant bach, sy'n llawn geiriau fferm cyntaf a lluniau lliwgar.

*Your little one will love to discover farm animals, machinery, and everyday farm objects inside this colourful board book. There are lots of photographs to look at and talk about.*




24 9781849670807 £4.99 Rily



# Rhifau, Lliwiau, Siapiau

**Roger Priddy (Addas. Lowri Head)**

Llyfr delfrydol ar gyfer babanod a phlant bach sy'n llawn geiriau hanfodol i'w dysgu, gyda lluniau lliwgar a chlawr trwchus a meddal.

*A soft-to-touch, padded board book about numbers, colours, shapes and more. Packed with over 100 first words to learn and bright, vibrant pictures that babies will love to look at!*




24 9781849670814 £4.99 Rily

# Gwenynen Brysur 123 / 123 Bumblebee

**Natalie Marshall (Addas. Gwynne Williams)**

Efo lluniau i'w teimlo a stori hwyliog llawn odlau, mae'r llyfr ffeindio-a-theimlo yma wedi ei lunio'n arbennig i helpu plant i ddysgu eu geiriau cyntaf ac i ddatblygu cydsymud rhwng llaw a llygad.

*With bumpy pages and a fun rhyming story, this find-and-feel book is specially designed to help children learn their first words and develop hand-eye co-ordination.*




dwyieithog bilingual 10 9781784231491 £5.99 Dref Wen


*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Ailgylchu Prysur / Busy Recycle

**(Addas. Elin Meek)**

Fe awn ni â'n plastig, ein cardfwrdd a'n tuniau a'u rhoi yn y biniau ailgylchu bob tro. Wrth wthio, tynnu, troi a llithro daw'r stori'n fyw.

*We take our plastics, card and tins and put them in the recycling bin! Push, pull, turn and slide to bring the story to life.*




dwyieithog bilingual 8 9781784231620 £4.99 Dref Wen

*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Fferm Brysur / Busy Farm

**(Addas. Elin Meek)**

Mae'n brysur ar y fferm ym mhob tymor. Pwy sy'n cuddio yn y sgubor? Wrth wthio, tynnu, troi a llithro, daw'r fferm brysur yn fyw!

*Animals run around the farm! Who is hiding in the barn? Push, pull, turn and slide, to bring the busy farm to life!*




dwyieithog bilingual 8 9781784231569 £4.99 Dref Wen


*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Tractor Prysur / Busy Tractor

**(Addas. Elin Meek)**

Mae'r tractor prysur ar y caeau drwy'r dydd gwyn yn trin y cnydau. Wrth wthio, tynnu, troi a llithro, daw'r tractor prysur yn fyw.

*The busy tractor never stops, working hard to grow the crops. Push, pull, turn and slide to bring the busy tractor to life.*




dwyieithog bilingual 8 9781784231545 £4.99 Dref Wen

*Cyfres Gwthio, Tynnu, Troi*

## Tyfu Prysur / Busy Grow

**(Addas. Elin Meek)**

Mae'r hadau yn barod i'w hau o'r pecynnau, bydd heulwen a glaw yn eu troi yn ffrwythau! Wrth wthio, tynnu, troi a llithro, daw'r planhigion prysur yn fyw.

*We've got lots of seeds to sow, the rain and sun will help them grow! Push, pull, turn and slide to bring the busy plants to life.*




dwyieithog bilingual 8 9781784231637 £4.99 Dref Wen

# Hwyaden y Tasgu / Squirty Duck

**(Addas. Elin Meek)**

Llyfr bath gwrth-ddŵr gyda thasgwr – er mwyn creu sblash go iawn!

*A waterproof bath book with a built-in squirter, perfect for making a splash!*




dwyieithog bilingual 6 9781784231439 £5.99 Dref Wen

# Pysgodyn y Tasgu / Squirty Fish

**(Addas. Elin Meek)**

Llyfr bath gwrth-ddŵr gyda thasgwr – er mwyn creu sblash go iawn!

*A waterproof bath book with a built-in squirter, perfect for making a splash!*




dwyieithog bilingual 6 9781784231422 £5.99 Dref Wen


*Cyfres y Llygaid Mawr*

# Amser Cinio, Mwnci / It's Lunchtime, Monkey

**Jo Lodge (Addas. Elin Meek)**

Dewch i gael hwyl gyda Mwnci wrth iddo gael cinio yn y stori syml hon gyda diweddglo llawn syrpréis!

*Have fun playing with Monkey as he has lunch in this simple story with a surprise push-up ending!*




dwyieithog bilingual 10 9781784231484 £4.99 Dref Wen


*Cyfres y Llygaid Mawr*

# Amser Gwely, Panda / Time for Bed, Panda

**Jo Lodge (Addas. Elin Meek)**

Cyfle i gael hwyl gyda Panda wrth iddo baratoi i fynd i'r gwely yn y stori syml hon gyda diweddglo llawn syrpréis!

*Have fun playing with Panda as he gets ready for bed in this simple story with a surprise push-up ending!*




dwyieithog bilingual 10 9781784231477 £4.99 Dref Wen

# Mae'r Cyfan i Ti

## Luned Aaron




Cyfrol annwyl a theimladwy i'w darllen cyn mynd i gysgu wrth i riant gyflwyno rhai o ryfeddodau'r byd i'r plentyn. Dilynwn y dydd o'r wawr i'r machlud yn y llyfr mydr ac odl hwn.


*A tender and sensitive bedtime story for a parent to present the wonders of the natural world to a child. Contains an English translation of the text.*

32 9781913245382 £6.99 Atebol



# Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed / Head, Shoulders, Knees and Toes

## (Addas. Elin Meek)




Cana'n uchel a dawnsia'n ffri gyda'r llyfr sain gwych hwn. Gwasga'r botwm a bydd yn barod am sbri wrth ganu a symud.

*Sing out loud and dance around with this awesome Welsh adaptation. Push the button and get ready for a super-fun, sing-along playtime.*

8 9781784231521 £5.99 Dref Wen

*Sam Tân*

# Cer yn dy Flaen, Jwpiter!

## (Addas. Llinos Dafydd)




Dere i helpu Sam Tân i orffen ei waith i achub Pontypandy, wrth ddarllen y stori hyfryd hon mewn llyfr bwrdd ar olwynion, yr un siâp â Jwpiter, ei injan dân ddibynadwy!

*Help Sam Tân race to save Pontypandy in this sturdy board book on wheels, shaped to look just like his trusty fire engine, Jwpiter!*

10 9781849674829 £6.99 Rily

*Tomos a'i Ffrindiau*

# Cer yn dy Flaen, Tomos!

## (Addas. Llinos Dafydd)




Bydd plant bach wrth eu boddau yn gwthio'r llyfr bwrdd hwn, sydd yr un siâp ag injan Tomos y Tanc, ac yna'n darllen y stori am y tro y rasiodd Tomos o gwmpas Sodor.

*Young children will love wheeling Tomos around and then stopping to enjoy the story about the time Tomos raced around Sodor as fast as he could.*

10 9781849674812 £6.99 Rily

*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Yr Awel yn yr Helyg

## (Addas. Non Tudur)




Ymunwch â Gwadd, Llygoden a Llyffant ar eu hantur ar lan yr afon. Ewch ati i wthio, tynnu a llithro'r paneli i ddod â'r stori enwog yn fyw. Addasiad Cymraeg o *The Wind in the Willows*.

*Join Mole, Ratty and Toad on their fast-paced adventure along the riverbank. Push, pull and slide the scenes to bring the classic tale to life. A Welsh adaptation of* The Wind in the Willows.

10 9781849674478 £4.99 Rily



*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Y Crydd a'r Corachod

## (Addas. Non Tudur)




Synnu'n fawr a wnaeth yr hen grydd o weld y sgidiau yng ngolau dydd! Bydd y stori enwog yn dod yn fyw wrth dynnu a gwthio'r tabiau. Addasiad Cymraeg o *The Elves and the Shoemaker.*


*A shoemaker is full of surprise when shoes appear before his eyes! Push, pull and slide the scenes to bring this Welsh adaptation of the classic tale* The Elves and the Shoemaker *to life.*

8 9781849674461 £4.99 Rily

*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Y Dywysoges a'r Bysen

### (Addas. Non Tudur)




Pwy fyddai'n gallu cysgu'n ddiddig gyda physen o dan fatresi'r gwely? Newidiwch y lluniau drwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau i ddod â'r stori'n fyw. Addasiad Cymraeg o *The Princess and the Pea*.

*Push, pull and turn the mechanisms to bring this classic fairy tale to life. A Welsh adaptation of* The Princess and the Pea.

8 9781849674911 £4.99 Rily

*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Mulan

### (Addas. Non Tudur)




Dewch i gwrdd â Mulan, y milwr dewr, ac ewch gyda hi ar antur fawr. Newidiwch y lluniau drwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau i ddod â stori Mulan yn fyw.

*Meet brave warrior Mulan and go with her on an incredible adventure. Push, pull and slide the scenes to bring the classic tale of Mulan to life.*

8 9781849674454 £4.99 Rily

*Cyfres Storïau Cyntaf*

# Un Noswyl Nadolig

### Clement Clarke (Addas. Myrddin ap Dafydd)




Mae'n Noswyl Nadolig, mae ust yn y tŷ – 'run ust â phob Noswyl Nadolig a fu. Newidiwch y lluniau drwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau i ddod â'r stori hudolus yn fyw.

*Push, pull and slide the pages to see reindeer magically flying through the sky, sugarplum fairies dancing and stockings filling up with presents. A Welsh adaptation of the poem* 'Twas the Night Before Christmas.

10 9781849674928 £4.99 Rily

*Cyfres Storïau Hud*

# Bwni

### (Addas. Llinos Dafydd)




Ewch ar helfa wyau gyda'r Bwni sgleiniog. Trwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau, daw ei gêm yn fyw. Addasiad Cymraeg o'r stori dyner mewn mydr ac odl, *My Magical Bunny*.

*Enter a magical world with a bright, bouncy Bunny as he hides Easter eggs. With push, pull and turn mechanisms and a sparkly foil cover wheel.*

8 9781849674577 £5.99 Rily

*Cyfres Storïau Hud*

## Dyn Eira

**(Addas. Llinos Dafydd)**




Ewch ar antur Nadoligaidd gyda'r dyn eira arbennig hwn. Trwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau, daw ei fyd hudolus yn fyw. Addasiad Cymraeg o *My Magical Snowman.*

*Go on an amazing Christmas adventure with a fun-loving snowman! With push, pull and turn mechanisms and a sparkly foil cover wheel, this Welsh adaptation of* My Magical Snowman *has plenty to keep little ones engaged and entertained.*

10 9781849674966 £5.99 Rily

*Cyfres Storïau Hud*

## Merlen

**(Addas. Llinos Dafydd)**




Dewch ar antur hudolus gyda'r ferlen sgleiniog. Trwy wthio, tynnu a llithro'r tabiau, daw ei byd yn fyw. Cyfieithiad Cymraeg o *My Magical Flying Pony.*

*A Welsh adaptation of* My Magical Flying Pony. *With push, pull and turn mechanisms and a sparkly foil cover wheel, little ones will have lots of fun taking part in the flying pony's exciting adventure!*

8 9781849674584 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

## Dwi'n Hoffi Bod yn Garedig

**(Addas. Elin Meek)**




Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i'w helpu i fwynhau bywyd hapus trwy ddangos caredigrwydd at eraill. Addasiad Cymraeg o *I Like to be Kind.*

*A fun introduction to the benefits of being kind to others. Young children can lift the flaps, slide the tabs and turn the wheel as they explore what kindness is. A Welsh adaptation of* I Like to be Kind.

10 9781849674980 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

## Pan Dwi'n Hapus

**(Addas. Elin Meek)**




Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i'w helpu i fwynhau bywyd hapus. Addasiad Cymraeg o *When I am Happy.*

*A Welsh adaptation of* When I am Happy *which helps young children to start managing their emotions. They can lift the flaps, slide the tabs and turn the wheel to explore what being happy is, why it's good to be happy and how they can stay happy.*

10 9781849674997 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

# Weithiau Dwi'n Poeni

## (Addas. Elin Meek)




Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i drafod unrhyw beth sy'n eu poeni. Addasiad Cymraeg o *Sometimes I am Worried.*

*A Welsh adaptation of* Sometimes I am Worried *to help children manage their emotions. They can lift the flaps, slide the tabs and turn the wheel to explore what a worry is, why they might worry and how they can stop their worries from becoming too large.*

10 9781849674973 £5.99 Rily

*Cyfres Teimladau Mawr Bach*

# Weithiau Dwi'n Teimlo'n Grac

## (Addas. Elin Meek)





Rhannwch y llyfr rhyngweithiol hwn gyda'ch rhai bach i'w helpu pan maen nhw'n teimlo'n flin. Addasiad Cymraeg o *Sometimes I am Angry.*

*A Welsh adaptation of* Sometimes I am Angry *to help young children manage their emotions. They can lift the flaps, slide the tabs and turn the wheel to explore what anger is, why they might get angry and how they can calm their anger.*

10 9781849672757 £5.99 Rily

# Wwsh ar y Brwsh

## Julia Donaldson (Addas. Gwynne Williams)




Mae'r gath yn cael mynd am wwsh ar y brwsh, ond beth am y ci, y llyffant, a'r aderyn – a'r ddraig lwglyd? Gwthiwch, tynnwch a llithrwch y golygfeydd i gael gwybod! Addasiad Cymraeg o *Room on the Broom.*

*There's room on the broom for a cat, but what about a dog, frog and bird – and a hungry dragon? Push, pull and slide the scenes to find out! A Welsh adaptation of* Room on the Broom.

8 9781784231606 £5.99 Dref Wen



# Anhygoel / Amazing

## Steve Anthony (Addas. Elin Meek)





Does dim gwell ffrindiau yn y byd i gyd na bachgen bach a'i ddraig anwes. Maen nhw'n chwerthin, yn dawnsio, yn cysgu. Mae'r ddau'n anhygoel – fel pawb arall!

*A little boy and his pet dragon are the very best of friends. They laugh, they dance, they snooze. They are both amazing – just like everyone else! This bilingual picture book is a celebration of friendship, diversity, equality and believing in yourself.*

dwyieithog bilingual 32 9781849674560 £5.99 Rily

# Anwen yr Asyn

## Elli Woollard (Addas. Tudur Dylan Jones)




Anwen sy'n tynnu'r gert i fynd â'r plant i'r ysgol bob dydd, ac mae hi wrth ei bodd â'r gwaith. Ond mae Anwen yn heneiddio ac yn arafu, a chyn hir mae ei pherchennog yn prynu ceffyl ifanc, bywiog yn ei lle.


*Meet Anwen the wonky donkey in this delightful story that puts age and wisdom before beauty, encourages self-belief and shows that no matter how old and wonky you may be, you can still be exceptional!*

32 9781849674591 £6.99 Rily

# Arch Noa / Noah's Ark

## (Addas. Llinos Dafydd)

Darganfyddwch beth sy'n digwydd i Noa a'r anifeiliaid yn yr arch. Mae'r llyfr mawr hwn yn ddelfrydol i'w rannu gyda phlant ifanc wrth iddyn nhw eistedd ar eich glin, neu i'w ddarllen yn uchel yn yr ystafell ddosbarth.




*Find out what happens to Noah and the animals on the ark. This extra-large format story book is a perfect size for sharing with young children as they sit on your lap, or reading aloud to a classroom.*

dwyieithog bilingual 32 9781849674898 £5.99 Rily

# Bws Cerdded Cyw / Cyw's Walking Bus

## Anni Llŷn

Mae Cyw wedi codi'n hwyr ac mae'r Bws Cerdded wedi cyrraedd i fynd â'r criw i'r ysgol. Maen nhw'n cael hwyl wrth chwarae'r gêm 'Rwy'n gweld gyda fy llygad bach i'. Ond beth sy'n dechrau â'r llythyren 'c'?





*Cyw gets up late and the Walking Bus has arrived to take the crew to school. They have fun playing the game 'I spy with my little eye…' But what begins with the letter 'c'?*

dwyieithog bilingual 24 9781784619077 £3.95 Y Lolfa

# Y Côr Creaduriaid / The Creature Choir

## David Walliams (Addas. Eurig Salisbury)





Stori ryfeddol am walrws sydd wrth ei fodd yn canu, ond yn anffodus, nid yw'n dda iawn! Pan mae ei ganu erchyll yn achosi eirlithriad, mae'r creaduriaid eraill yn troi eu cefnau arno.

*A wonderful story about a walrus who loves singing. Unfortunately, she isn't a good singer, and when her awful singing creates an avalanche, the other creatures turn their backs on her.*

dwyieithog bilingual 32 9781913245320 £6.99 Atebol

# Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll

## Carys Glyn





Mae'r wenynen yn drist. Mae hi wedi colli ei ffrindiau i gyd, felly mae'n gofyn i Griw'r Coed – Gwdi-Hw, Carw, Mwyalchen, Eryr a Chwim yr Eog – am eu help. Llyfr sy'n dysgu gwers bwysig am yr amgylchedd.

*The bee is sad. She has lost all her friends, so she asks the forest crew – Owl, Deer, Blackbird, Eagle and the swift Salmon – for their help. A story that provides timely advice about the environment.*

32 9781784619084 £6.99 Y Lolfa

# Dafad yw Blodwen / Blodwen is a Sheep

## Morag Hood (Addas. Elin Meek)





Blodwen yw'r ddafad fwyaf poblogaidd yn y praidd ... ond mae rhywbeth amdani sydd ychydig bach yn wahanol. Stori ddoniol iawn am gamadnabod a derbyn.

*Blodwen is the most popular sheep in the flock... but there's something about her that's a little different. A very funny story of mistaken identity and acceptance. A Welsh adaptation together with the original text in English.*

dwyieithog bilingual 32 9781784231590 £5.99 Dref Wen

# Y Ddinas Uchel / The Builders

## Huw Aaron





Mae Petra'n byw mewn dinas lle mae pawb yn codi tyrau sy'n uwch ac yn uwch, ond mae'r ferch fach yn cwestiynu'r drefn ac yn dyheu am rywbeth mwy.

*The story of a girl living in a city of towers, which is constantly being added to by the people living there. The little girl starts to wonder why everyone else spends all their time building their towers ever taller, and her search for answers leads her on an adventure.*

dwyieithog bilingual 32 9781801060189 £6.99 Atebol

# Drwy fy Llygaid I

**Jon Roberts (Addas. Mary Jones)**





Cydnabod ymddygiad, gwerthfawrogi meddyliau a theimladau, datblygu sgiliau cyfathrebu: bydd y disgrifiad tyner hwn o fyd Kya sy'n bedair oed yn helpu pawb i ddeall awtistiaeth yn well. Addasiad Cymraeg o *Through the Eyes of Me*.

*Accepting behaviour, appreciating thoughts and feelings, developing communication skills; this tender portrait of four-year-old Kya's world will help everyone to better understand autism. A Welsh adaptation of* Through the Eyes of Me.

36 9781912050079 £7.99 Graffeg

# Dyma Sam / This is Sam

**Chris Chatterton (Addas. Elin Meek)**





Ci pwdlyd yw Sam. Dyw e ddim yn hoffi llawer o ddim byd, yn enwedig gwneud ffrindiau. Ond a fydd e'n newid ei feddwl pan fydd ci bach newydd yn cyrraedd? Stori ddoniol am hwyliau drwg, selsig a dysgu cyfaddawdu.

*Sam is a grumpy dog. He doesn't like much of anything, especially making friends. But will he change his mind when a new puppy arrives on the scene? A hilarious tale about bad moods, sausages and learning to compromise.*

dwyieithog bilingual 32 9781784231613 £5.99 Dref Wen

# Everybody Has a Body / Mae gan Bawb ei Gorff ei Hun

**Jon Burgerman (Addas. Llinos Dafydd)**




Mae pawb yn wahanol – ac mae hynny'n hollol iawn. Yn fawr, yn dwt, yn llydan neu'n dal, rhaid dathlu'n llawn! Llyfr doniol, lliwgar a dwyieithog ar gyfer plant bach, i'w hannog i fod â hyder ynddyn nhw'u hunain.


*Everybody is different in some way – and being different is okay! Whether your body is big, small, wide or tall, it is something to celebrate. This comical, bilingual picture book contains an empowering message about being confident in yourself.*

dwyieithog bilingual 32 9781849674614 £5.99 Rily



# Y Ferch heb Lais

### Mike Church (Addas. Anwen Cullinane, Jaci Evans)





Stori wych am ddicter a hunanreolaeth. Yn rhan o'r stori mae môr-ladron a chist drysor. Ymunwch â ni ar antur i weld a allwn ni guro'r bwlis a newid y byd!

*A great story about anger and self-control, with pirates and a treasure chest part of the text. Join us on an adventure to find out if we can overcome the bullies and change the world!*

36 9781999597399 £6.99 Petra Publishing

# Ffwlbart Ffred: Drewi Fel Ffwlbart

### Sioned Wyn Roberts





Mae Ffred a'i ffwlbart yn ffrindiau gorau ond digwyddodd rhywbeth od un bore wnaeth newid lliw trwyn Anti Gyrti – ar fy ngwir! Dewch i gwrdd â Ffred a'i ffwlbart yn y llyfr cyntaf mewn cyfres newydd o lyfrau stori-a-llun am ffrindiau bach direidus.

*A picture story book about mischievous friends and the amazing stories behind our strangest Welsh sayings. Ffred and Ffwlbart are always in trouble, but Ffwlbart is also a genius who solves every problem!*

28 9781913245023 £6.99 Atebol

# Gormod o Bopeth! / Too Much Stuff!

### Emily Gravett (Addas. Mari George)




Mae'r llyfr yma yn dangos pa mor hawdd y cawn ein hudo gan eiddo, cyn lleied o bethau sydd eu hangen arnom go iawn, a sut mae ailgylchu yr hyn y gallwn fyw hebddo. Yn cynnwys cymeriadau adnabyddus stori *Taclus/Tidy*.

*This story shows us how easy it is to be charmed by possessions, how few things we really need and how to recycle the things we can live without. Features popular characters from the story* Taclus/Tidy.

dwyieithog bilingual 40 9781849674874 £6.99 Rily

# Gwyliau Gwirion Fferm Cwm Cawdel

### Gwennan Evans





Dydy Ffion y ffermwraig ddim yn gallu mynd ar ei gwyliau, oni bai ei bod hi'n mynd â'r holl wartheg gyda hi. Does dim amdani, felly, ond gwyliau gwirion i bawb!

*Ffion the farmer is unable to go on holiday, unless she takes all her cows with her. The result is a hilarious holiday for all!*

52 9781845277369 £6.00 Gwasg Carreg Gwalch

# Hanes y Twrch Bach oedd am Wybod Pwy oedd Wedi Gwneud ar ei Ben

### Werner Holzwarth (Addas. Bethan Gwanas)





Llyfr stori-a-llun am thema nad ydy oedolion yn hoff iawn o siarad amdani, ond sydd yn boblogaidd iawn efo plant... pw! Addasiad Cymraeg o *The Story of the Little Mole Who Knew It Was None of His Business*.

*A picture book on a theme that adults aren't always too fond of discussing, but kids love … poo! A Welsh adaptation of* The Story of the Little Mole Who Knew It Was None of His Business.

32 9781785623257 £6.99 Gomer

# Yr Hwyaden Fach Hyll / The Ugly Duckling

### (Addas. Non Tudur)





Nid yw'r hwyaden fach hyll yn debyg i'w theulu o gwbl, ac mae pawb yn chwerthin ar ei phen am ei bod hi'n wahanol. All yr hwyaden fach fod yn ddewr a dod o hyd i ffrindiau?

*This fairy tale is the perfect classic picture book to share with young children. Teased by his siblings for his different looks, the brave cygnet journeys into the world, looking for friendship and kindness.*

dwyieithog bilingual 32 9781849672740 £5.99 Rily

# Y Lloches

### Céline Claire (Addas. Aneirin Karadog)




Wrth i storm o eira ddod yn nes, daw dau ddieithryn o'r goedwig. Mae'r dieithriaid yn gobeithio y bydd rhywun yn cynnig lloches iddyn nhw. A fydd unrhyw un yn helpu? Addasiad Cymraeg o *L'abri*.

*As a big storm approaches, two strangers arrive in the forest. The stangers hope someone will give them shelter. Will anyone help them? A lyrical adaptation of the French book,* L'abri.

48 9781849674904 £6.99 Rily

# Mae Ein Tŷ Ni ar Dân – Cri Greta Thunberg i Achub y Blaned

### Jeanette Winter, Greta Thunberg (Addas. Elin Meek)





Dyma stori bwerus a phwysig Greta Thunberg, yr ymgyrchwraig un ar bymtheg oed a daniodd symudiad byd-eang gan fynnu bod arweinwyr byd yn gweithredu ar fyrder i ddelio gyda phroblemau newid hinsawdd.

*The urgent and powerful story of Greta Thunberg, the sixteen-year-old climate activist who has sparked a worldwide student movement and is demanding action from world leaders who refuse to address climate change.*

dwyieithog bilingual 40 9781849674683 £6.99 Rily

# Mali a'r Goleudy

## Malachy Doyle (Addas. Anwen Pierce)




Mae'r goleudy y tu allan i ffenest Mali'n dywyll fel y fagddu. Heb ei belydryn, sut gall ei thad, sydd allan yn pysgota ar y môr tywyll, ddod yn ôl i'r harbwr yn ddiogel? Rhaid i Mali ailgynnau'r golau ar unwaith!


*One night, Mali realises the lighthouse isn't working and wakes her friend Dylan to set off to help. But will Mali and Dylan be able to get the light working again to guide her father's boat to safety?*

36 9781913634179 £12.99 Graffeg



# Michewa a'r Mynydd

## Sean Chambers (Addas. Manon Steffan Ros)





Un diwrnod, i brofi i'w thad ei bod hi'n ddewr, mae Michewa'n mynd ati i ddringo'r 'Mynydd Unig' ger ei phentref yn Tibet. Mae'r mynydd penodol hwn yn llawn dirgelwch a pherygl. a pherygl.

*One day, to prove to her father that she is brave, Michewa, Michewa sets out to climb the 'Lonely Mountain' by her home in a forest village in Tibet. This mountain is enveloped in mystery and danger.*

32 9781913245375 £9.99 Atebol

# Pawennau Mursen

## Angharad Tomos




Dyma lyfr newydd sbon – rhif 17 yng Nghyfres Rwdlan. Stori amserol ar gyfer y cyfnod clo yw hi, am Rwdlan a'r Dewin Dwl yn cael gwersi gartref yn lle mynd i'r ysgol, ond maent yn penderfynu cael hwyl yn lle cael gwersi gan Ceridwen!

*A new book, number 17 in the popular Rwdlan series. This is a timely story for the lockdown period, about Rwdlan and Dewin Dwl receiving home schooling, but they decide to have fun instead of listening to Ceridwen's lessons!*


40 9781784619305 £2.95 Y Lolfa



*Peppa Pinc*

## Yr Anhygoel Peppa!

### Astley/Baker/Davies (Addas. Owain Siôn)




Pan mae Madam Hirgorn yn gofyn i Peppa beth fyddai hi'n hoffi bod ar ôl tyfu'n hŷn, does ganddi ddim syniad! Efallai y bydd dilyn Mami Mochyn, Dadi Mochyn a Miss Cwningen am ddiwrnod yn ei helpu i benderfynu.

*When Madam Hirgorn, the teacher, asks the class to dress up as what they want to be when they are older, they are all very excited. But Peppa doesn't know what she wants to be!*

32 9781849674645 £6.99 Rily

*Peppa Pinc*

## Peppa yn Cwrdd â Siôn Corn

### Astley/Baker/Davies (Addas. Owain Siôn)




Mae Peppa'n edrych ymlaen at ddrama Nadolig yr ysgol feithrin! Mae hi wedi gwahodd Siôn Corn i ddod hefyd. Ond y Nadolig ydy'r amser prysuraf i Siôn Corn … a fydd e'n llwyddo i gyrraedd mewn pryd?


*Peppa is very excited for her playgroup's Christmas play! She has invited Father Christmas to come along. But Christmas is his busiest time of the year … will Father Christmas manage to make it on time?*

32 9781849674959 £6.99 Rily

*Peppa Pinc*

## Peppa'n Mynd i Ddawnsio

### Astley/Baker/Davies (Addas. Owain Siôn)




Mae Peppa a George yn edrych ymlaen yn arw at berfformio yng Nghystadleuaeth Ddawns Ffantastig Mr Taten! A wnaiff Mami Mochyn a Dadi Mochyn ymuno hefyd?


*It's time for Mr Taten's Super Fantastic Dance Competition! Will they win a prize? And can Peppa persuade Mami and Dadi Mochyn to join in, too?*

16 9781849674942 £4.99 Rily

*Peppa Pinc*

# Peppa yn y Sw Môr

### Astley/Baker/Davies (Addas. Owain Siôn)




Mae Peppa a'i theulu yn mynd ar daith i'r Sw Môr! Codwch y fflapiau er mwyn dod o hyd i'r gwahanol greaduriaid, a helpu Peppa i gael ffrind i Eurwen y pysgodyn aur!

*Peppa and her family go to see all the different things in the aquarium. Lift the flaps to discover the sea creatures and help Peppa find a friend for Eurwen the goldfish!*

10 9781849674652 £6.99 Rily

# Pwy sy Wedi Llyncu Llŷr?

### Sarah Roberts (Addas. Gwynne Williams)




Dim slefren fôr yw Llŷr o gwbwl. Dydych chi erioed wedi gweld slefren fôr fel Llŷr. Addasiad Cymraeg o *Somebody Swallowed Stanley.*


*Llŷr is certainly not a jellyfish. You have never seen a jellyfish like Llŷr. A Welsh adaptation of* Somebody Swallowed Stanley.

28 9781784231514 £5.99 Dref Wen

*Sara Jones*

# Seren Chwaraeon / Sports Superstar

### Morag Hood (Addas. Elin Meek)




Y trydydd teitl yn y gyfres o lyfrau stori-a-llun dwyieithog am Sara Jones. Y tro hwn, mae Sara yn serennu ym myd y campau, wrth iddi ymarfer ar gyfer ras farathon.

*The third title in the bilingual picture story-book about Sara Jones. This time, she is a sports star as she prepares for a marathon race.*

dwyieithog bilingual 32 9781784231552 £5.99 Dref Wen

# Shwshaswyn

### Nia Jewell, Sïan Angharad




Stori sy'n dysgu plant bach am yr ardd, am anadlu ac ymlacio, ac am ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'n dilyn patrwm y gyfres deledu *Shwshaswyn* sy'n rhan o arlwy Cyw ar S4C.

*A story that teaches young children about the garden, about breathing and relaxing, and about mindfulness. It follows the pattern of the television series* Shwshaswyn *which is part of the Cyw programmes on S4C.*

32 9781784619534 £4.99 Y Lolfa

## Siwtces Mam-Gu

### Mike Church (Addas. Anwen Cullinane, Jaci Evans)

Ymunwch â Joe wrth iddo fynd ar daith i ddod o hyd i'w ddychymyg, a chwrdd â'i fam-gu fendigedig sy'n darllen llyfrau, pobi cacennau ac yn taflu peli eira ar frig mynyddoedd!

*Join Joe as he goes on a journey to look for his imagination, and meet his wonderful grandmother who reads books, bakes cakes and throws snowballs on mountain tops!*




44 9781999597382 £6.99 Petra Publishing

## Supertaten: Y Bysen Gas am Byth!

### Sue Hendra

Mae'r Bysen Gas wedi dianc ac mae hi eisiau troi'r archfarchnad yn deyrnas rewllyd iddi hi ei rheoli! O'r andros, lysiau bach… ble mae Supertaten? Addasiad Cymraeg o *Supertato: Evil Pea Rules.*

*The Evil Pea has escaped and she wants to turn the supermarket into a freezing kingdom which she will rule! Oh dear, little veggies, where is Supertaten? A Welsh adaptation of* Supertato: Evil Pea Rules.




32 9781784231446 £5.99 Dref Wen




## Tedi-bêr y Sêr

### Dawn Coulter-Cruttenden (Addas. Non Tudur)

Mae Jac a'i dedi-bêr yn ffrindiau gorau. Ond un diwrnod mae Tedi yn diflannu… Dyma stori hardd am gariad, colled a symud ymlaen wedi colled. Addasiad Cymraeg o *Bear Shaped.*

*Jack and Bear were best friends. But one day, Bear disappeared… A beautiful story of love, loss and moving forward. A Welsh adaptation of* Bear Shaped.




32 9781849674515 £6.99 Rily

# Ti a Fi'n Gwneud Tîm

## Smriti Halls (Addas. Gwynne Williams)

Stori ddifyr sy'n adlewyrchu'r rhan allweddol y mae cyfeillgarwch yn ei chwarae yn ein bywydau. Llyfr cynnes a digri ar ffurf mydr ac odl am fod yn ffrindiau. Llyfr i chi... ac i'ch ffrindiau.

*A tender, colourful warm and entertaining book in rhyme reflecting the key part that friendship plays in our lives. A Welsh adaptation of* I'm Sticking With You.





40 9781784231453 £5.99 Dref Wen

# Ti... / You...

## Emma Dodd (Addas. Eurig Salisbury)

Stori sy'n mynd â ni ar daith trwy'r jyngl, lle down o hyd i fwnci bach doniol sydd â rhywun sy'n ei garu'n fwy a mwy bob dydd. Testun bywiog sy'n odli.

*A story which takes us on a journey through the jungle, where we meet an amusing monkey who is loved more and more each day. A lively text in rhyme.*





dwyieithog bilingual 24 9781913245092 £6.99 Atebol

# Tomos Llygoden y Theatr a Chrechwen y Gath

## Caryl Parry Jones, Craig Russell

Mae'r gantores fyd-enwog Madam Lilian Blobfawr yn dod i berfformio yn y theatr, ac mae'r llygod i gyd wedi gwirioni'n lân!

*Madam Lilian Blobfawr, the world renowned singer, is coming to perform in the theatre, and all the mice go wild!*





70 9781845277352 £4.95 Gwasg Carreg Gwalch

# Y Tri Mochyn Bach / The Three Little Pigs

## (Addas. Non Tudur)

Mae'r tri mochyn bach yn adeiladu tŷ yr un, ond beth sy'n digwydd pan ddaw'r Blaidd Mawr Drwg a cheisio chwythu eu cartrefi i'r llawr? Stori dylwyth teg draddodiadol i blant.


*A traditional fairy tale for children. When the three little pigs leave home, they build houses made of straw, branches and bricks but which house will remain standing when the big bad wolf huffs and puffs?*




dwyieithog bilingual 32 9781849670937 £5.99 Rily

## Ynyr yr Ysbryd

### Rhian Cadwaladr





Llyfr hwyliog a lliwgar yn adrodd hanes Ynyr, ysbryd bach annwyl ac ofni a fyddai'n ofn ei gysgod ei hun petai ganddo gysgod!

*A lively, colourful book about Ynyr, a charming and scared ghost who would be afraid of his own shadow, if he had a shadow!*

64 9781845277734 £6.50 Gwasg Carreg Gwalch

## Amser Canu, Blant!

### Lluniau gan Leonie Servini





Llyfr sy'n cynnwys cymysgedd o rigymau a hwiangerddi clasurol a thraddodiadol o Gymru, yn ogystal â chaneuon eraill, cyfarwydd a chyfoes.

*The book includes a mixture of traditional classic Welsh nursery rhymes and more modern-day, familiar songs.*

26 9781849675437 £6.99 Rily

## Fy Llyfr Piano Cyntaf

### Mair Jones Parry




Llyfr bwrdd ar gyfer y plant lleiaf, yn cynnwys piano y gellir ei chwarae ar y clawr blaen. Ceir 6 o ganeuon/emynau syml ar gyfer y plant lleiaf. Hwn yw'r llyfr piano cyntaf o'i fath yn y Gymraeg.

*A board book for little children, including a piano to play on the front cover. There are 6 simple songs/hymns for young children. This is the first piano book of its kind in Welsh.*

14 9781859949290 £8.99 Cyhoeddiadau'r Gair

## Jig-so a Gêm: Hud a Lledrith / Magic Fantasy Land Jigsaw

### L. A. Larsen



Jig-so a gêm gyda rhifau o 1 i 100. Yr her yw cyrraedd castell hud.

*This number puzzle features an exciting snakes and ladders game. The numbers increase from 1 to 100. Once you complete the puzzle, you will arrive at the castle.*

dwyieithog bilingual 9781801060219 £6.98 Atebol

## Llyfr Lliwio Cadi

### Bethan Gwanas

Llyfr maint A4 yn cynnwys lluniau du a gwyn gan Janet Samuel, artist llyfrau cyfres Cadi. Mae nifer o'r rhain yn lluniau o'r llyfrau a gyhoeddwyd eisoes, a gall y plant gopïo'r lliwiau sydd yn y llyfrau darllen.

*An A4 size colouring book featuring Janet Samuel's illustrations, artist of the Cadi series. The illustrations comprise those included in the published titles together with some new ones.*




32 9781784618605 £4.99 Y Lolfa

## Wyt Ti'n Dalach Na Theigr?

### (Addas. Catrin Wyn Lewis)

Siart taldra 1.5 metr, gyda sticeri. Wyt ti'n dalach na tsimpansî? Beth am sebra neu gangarŵ? Cadwa gofnod o dy daldra gyda'r sticeri, a dysgu ffeithiau difyr wrth i ti dyfu.

*1.5m height chart with stickers. Are you taller than a chimpanzee? What about a zebra? Or a kangaroo? Track your height with stickers and discover awesome animal facts as you grow.*





12 9781849674553 £4.99 Rily

## Swyn Seiniau Tric a Chlic

### Eirian Lloyd Jones

Yn y pecyn ceir llythrennau'r wyddor Gymraeg, y treigladau, yr acenion crwm, y cyfuniadau seinegol ynghyd ag ambell brif lythyren i gefnogi rhaglen Tric a Chlic.

